# Diogelwch nwy yn eich cartref

Efallai na fyddwch yn meddwl am eich offer nwy ond pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, ond mae cael offer nwy sydd wedi'u gosod yn wael neu heb gael eu gwasanaethu'n iawn, yn gallu eich rhoi chi a'ch teulu mewn perygl.

Y Gofrestr Gas Safe yw'r rhestr swyddogol o beirianwyr nwy sydd wedi'u cofrestru i weithio'r ddiogel ac yn gyfreithiol ar offer nwy. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob un peiriannydd nwy fod ar y Gofrestr.

Peidiwch â defnyddio neb ond peiriannydd cofrestredig Gas Safe i osod, trwsio neu roi gwasanaeth i'ch offer nwy.

Cofiwch hefyd wirio cerdyn adnabyddiaeth Cofrestr Gas Safe i sicrhau fod y peiriannydd yn gymwys ar gyfer y gwaith.

---

**Cewch ganfod a gwirio peiriannydd cofrestredig Gas Safe ar:**

**GasSafeRegister.co.uk**

**0800 408 5500**

GAS safe® REGISTER

# Cadw eich cartref yn nwy ddiogel

**Dilynwch yr awgrymiadau syml hyn i aros yn ddiogel:**

- ☑ Gwiriwch eich offer nwy pob blwyddyn gan beiriannydd cofrestredig Gas Safe.
- ☑ Gwiriwch am arwyddion rhybuddio ar neu o gwmpas offer nwy (megis huddyg neu staenio, mwy o anweddu, fflamau melyn llipa, golau peilot y boeler yn mynd allan o hyd).
- ☑ Peidiwch â gwneud DIY neu ddefnyddio gweithiwr nwy anghyfreithlon. Os nad ydyn nhw ar Gofrestr Gas Safe, maen nhw'n gweithio'n anghyfreithlon a gallen nhw fod yn eich peryglu.
- ☑ Mae monocsid carbon (CO) yn nwy eithriadol o wenwynig, allwch chi ddim ei weld, ei arogli na'i flasu. Gosodwch larwm CO clywadwy gyda'r nod EN50291 i'ch rhybuddio os yw'n bresennol.
- ☑ Adnabod yr arwyddion o wenwyno CO. Chwiliwch am gymorth ar unwaith os ydych yn cael cur pen, pendro, eisiau taflu i fyny, colli gwynt, llewygu neu fynd yn anymwybodol.

**Arogli nwy neu'n amau CO?**
**Ffoniwch y rhif argyfwng nwy:**
**0800 111 999**

WLDL12/21v1